ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 2 Cyfrol 11 Ebrill 2014

GWEINIDOG: Y PARCHEDIG ERIC JONES BD
Gwernyfed, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DZ Ffôn 01248 362127
e-bost: ericaval@btinternet.com

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

Wedi i'r Saboth fynd heibio, prynodd Mair Magdalen a Mair, mam Iago a Salome, beraroglau, er mwyn mynd i'w eneinio ef. Ac yn fore iawn ar y dydd cyntaf o'r wythnos, a'r haul newydd godi, dyma hwy'n dod at y bedd. *Marc 13:1a2*

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Ebrill	**27**	Parch. Adrian Williams *Undebol Hwyr Pendref*
Mai	**4**	Gweinidog
	11	Parch. Ieuan Lloyd
	18	Gweinidog
	25	*Undebol Hwyr Penuel*
Mehefin	**1**	Gweinidog
	8	Parch. Glyn Tudwal Jones *Undebol Hwyr* *Y Gadeirlan*
Mehefin	**15**	Moliant y Plant
	22	Parch. Harri O. Jones *Undebol Hwyr* *Berea Newydd*
	29	Parch Iorwerth J. Owen
Gorffennaf	**6**	Gweinidog
	13	Parch Cath Williams
	20	Gweinidog

DYLETSWYDDAU

BLAENOR Y PYTHEFNOS

Ebrill	**27**	Alwyn Lloyd-Ellis *Undebol Hwyr Pendref*
Mai	**4**	Robat Roberts Cymun Bore
	11	Robat Roberts
	18	Aled Harri Jones
	25	Aled Harri Jones *Undebol Hwyr Penuel*
Mehefin	**1**	John Wyn Jones Cymun Hwyr
Pentecost	**8**	John Wyn Jones *Undebol Hwyr* *Y Gadeirlan*
Mehefin	**15**	Maldwyn Thomas Moliant Y Plant Berea Newydd
	22	Maldwyn Thomas *Undebol Hwyr* *Berea Newydd*
	29	Arfon Evans
Gorffennaf	**6**	Arfon Evans *Cymun Bore*
	13	Elin Walker-Jones
	20	Elin Walker-Jones

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

27 Ebrill	Menna Baines
4 Mai	Enyd Roberts
11 Mai	Maisie Griffiths
18 Mai	Dilys Jones
25 Mai	Nerys Morris
1 Mehefin	Cynthia Owen
8 Mehefin	Sioned Jones
15 Mehefin	Mair Thomas
22 Mehefin	Arwyn Evans
29 Mehefin	Nia Williams
6 Gorffennaf	Margaret Davies
13 Gorffennaf	Gracie Williams
20 Gorffennaf	Elin Walker Jones

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Roeddem yn eithriadol o falch o'r gwasanaeth i bob oed a oedd yn adrodd Stori'r Groglith a'r Pasg. Mae'n amlwg fod y plant wedi ei fwynhau, a mwynhau brecwast gyda'i gilydd unwaith eto eleni. Yn yr un gwasanaeth diolchwyd i Elen Wyn trwy gyflwyno blodau iddi. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Mor werthfawr yw neges y Pasg. Dywedodd y cyn Archesgob Michael Ramsey galon y gwir. "No resurrection - no Christianity". Boed i ni uno gyda'r Apostol Paul pan ddywedodd, " . . fy nod yw ei adnabod Ef a grym ei atgyfodiad."

Hyderwn fod gobaith yr atgyfodiad yn gysur i deulu'r diweddar Mr Dafydd Williams, Caerhun. Fel ffermwr profiadol cafodd yntau ei atgoffa'n gyson o rym bywyd newydd ym myd natur. Cawn ein hatgoffa gan yr Aposotol Paul yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiad pennod 15, ad 19 "Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r mwyaf truenus o bawb".

Llongyfarchwn Mr Iorwerth Ellis, Ffordd Penrhos, ar ddathlu 50 mlynedd ers ei ordeinio'n flaenor yn Henaduriaeth Llundain. Diolch iddo am ei ffyddlondeb a'i wrandawiad astud o bregethu'r Efengyl, fel y dengys ei ymateb treiddgar ambell dro.

Dwi'n sylwi fod Mr John Wynn Jones unwaith eto wedi ymgymryd â'r gwaith o ofalu am gasgliadau Cymorth Cristnogol yn ein plith, a hynny yng nghanol ei holl brysurdeb eisoes. Diolchwn yn ddiffuant iddo ef, Mrs Astra Thomas, ac i bawb arall sy'n gofalu am y gwaith hwn. Dymunwn y gorau hefyd i Mrs Anne Jackson sy'n gofalu am holl gasgliadau'r deg eglwys a berthyn i Cytûn, heb anghofio diolch hefyd i Miss Ellie Jones, ei rhagflaenydd, am ei gwaith rhagorol. Cofiwn gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol unwaith eto eleni. Sylwer ar y Digwyddiadur.

Clywsoch erbyn hyn fy mod wedi cyflwyno fy mhenderfyniad, a oedd mor eithriadol o anodd, sef fy mwriad i ymddeol - o hyn i ddiwedd Medi. Hyderaf nad oes neb yn gwarafun ychydig o seibiant imi ar ôl 25 o flynyddoedd yn yr Ofalaeth hon, a 41 yn y weinidogaeth, heb anghofio 5 mlynedd arall yn y Coleg. Yn naturiol y mae hyn yn mynd i wneud gwahaniaeth i mi ac i chwithau hefyd. Nid hawdd yw galw gweindiogion y dyddiau hyn, ond y mae un cysur mawr gennyf, sef bod rhai teilwng iawn o'n plith a allai fod yn weinidogion y dyfodol.

Diolch am y fraint o gael bod yn weinidog cyntaf eglwys Berea Newydd.

Yn ddiffuant
Eric Jones.

Y BEIBL AMHRISIADWY!

BRUCE GRIFFITHS

A welsoch chi hanes dwyn Beibl gwerth rhyw dair mil o bunnoedd, o Eglwys y Santes Fair yn Llanrwst? (gw. y Daily Post, Rhagfyr 3, 2012.) Argraffiad 1589 oedd o Feibl Genefa, a elwir yn 'Breeches Bible,' gan y dywedir yn Genesis iii.7 i Adda ac Efa, o weld eu bod yn noeth, fynd ati i wnïo dail ffigysbren 'and made themselves breeches'. Ym Meibl 1611 newidiwyd hyn i 'aprons'. 'Arffedogau' sydd ym Meibl yr Esgob Morgan (1588), a 'ffedogau' yn y cyfieithiad newydd. Nid hwn fu'r unig Feibl i dramgwyddo Saeson mindlws. Dyna'r 'Bug Bible' (1561) a gysurai'r darllenydd trwy ddweud 'So that thou shalt not nede to be afraid for any bugges by nighte...'(Salm xci, 5). Newidiwyd bugges i terror. Yr un gair oedd bugge a bwgan yn Gymraeg. Gan y Dr Morgan caed 'Nid ofni rhag dychryn nos'. Ym Meibl y Triogl (1568) gofynnid 'Is there not treacle in Gilead?'(Jer. viii, 22) ac yn Gymraeg ceid 'Onid oes driagl yn Gilead?' Heddiw balm a geir yn y naill iaith a'r llall.

NID DA LLE GELLIR GWELL / GWALL!

Nid diofalwch a geid yn y Beiblau hyn, ond defnyddio geiriau a newidiodd eu hystyr o fewn cenhedlaeth efallai. Mater arall yw camgysodi, ac yn hanes y Beibl Saesneg ceir sawl gwall digrif. Yn arg. 1562 gwelir 'Blessed are the placemakers' (yn lle peacemakers) (Math. v,9).Yn arg 1682 ceir tri pherl: 'I have seen thine adversaries' (yn lle adulteries Jer. xiii, 27); 'Therefore deliver up their children to the swine' (yn lle famine) (Jer. xviii,21); ac 'And if the latter husband ate her' (yn lle hate)(Deut. xxiv, 3). Yn arg.1724 ceid 'The Parable of the Vinegar' yn lle Vineyard (Luc, xx.). Yn arg. 1823 gwelwyd 'And Rebekah arose, and her camels' (yn lle damsels) (Gen. xxiv, 61) Byddai cricedwyr

Beibl Genefa

yn cymeradwyo 'For without are dogs, and scorers' (yn lle sorcerers) (Dat. xxii, 15.) a geid yn arg. 1702. Yn 1804 cafwyd darlun digrif iawn yn Bren. I viii, 19: 'But thy son shall come forth out of thy lions' (yn lle loins).Yn 1806 gwelwyd 'And it shall come to pass that the fishes (yn lle fishermen) will stand upon it'(Esec xlvii, 10). A meddyliwch am un yn cysodi 'And then said Judas (yn lle Jesus) unto the twelve' (Ioan vi, 67), yn arg. 1611! Yn arg. 1810 aeth adnod sy'n ddigon annifyr i bawb a gred mai cariad yw hanfod Cristnogaeth, yn waeth fyth. Meddid, yn Luc xiv, 26: 'If any man come to me, and hate not his father and mother, yea and his own wife also...'(yn lle life).

BEIBLAU ANNUWIOL

Gwaethaf oll, fu'r gwallau syml - e.e. hepgor gair, megis not, gan greu cynghorion annuwiol a chableddus. Ym 'Meibl Ysgeler' 1631 gwelwyd y gorchymyn 'Thou shalt commit adultery' (Ecs. xx, 14). Gorchmynnwyd llosgi pob copi a chafodd y cyhoeddwyr ddirwy o dri chan punt. Honnir nad oes ond hanner dwsin o gopïau'n bod bellach. Yn arg 1634 gwelwyd 'The fool hath said in his heart there is God'(Salm xiv, 1, gan hepgor no).Ym Meibl 1638 clywid Crist yn datgan 'Her sins, which are many, are forgotten' (yn lle forgiven) (Luc vii, 47). Ym Meibl 1653 (The Pearl Bible) cafwyd, ymhlith chwe mil o wallau, y ddau berl hyn: 'Neither yield ye your members as instruments of righteousness unto sin'. (yn lle unrighteousness) (Rhuf. vi, 3) a 'Know ye not that the unrighteous shall inherit the kingdom of God?' (yn lle 'shall not inherit'). (I Cor. vi, 9).Yn arg. 1716 dywed Crist wrth y claf yn y deml 'Behold, thou art made whole: sin on more' (yn lle sin no more) (Ioan, v, 14); ac yn arg. 1795 dywed: 'Let the children first be killed' (yn lle filled) (Marc vii, 27). Yn 1824 honnwyd 'For Christ also hath once offered for our sins (yn lle suffered). (Pedr iii, 8). Yn ôl Beibl Rhydychen (1792) enwyd Philip, yn hytrach na Phedr, fel y disgybl a fyddai'n gwadu Crist (Luc xxii, 34). Ym Meibl Caergrawnt (1831) gwelwyd 'I will never forgive thy precepts' (yn lle forget) (Salm cxix, 93).

GALL DYN LITHRO'N ANFWRIADOL ...(ECCL. XIX, 16)

Yn 1585 – 90, pan gyhoeddodd y Pab ysgolheigaidd Sixtus y Pumed ei argraffiad ef o'r Fwlgat, cafwyd ei fod yn berwi o wallau fel y bu'n rhaid pastio papur dros y rhannau gwallus. Hynny, er iddo yn y gyfrol gyntaf, fygwth esgymuno unrhyw argraffydd a lygrai'r testun, ac er iddo ef ei hun ddarllen yr holl broflenni.

Ni fu'r oes oleuedig hon yn ddi-fai. Ym Meibl Jerusalem (1966), darllenir 'Pay for peace' (yn lle Pray) (Salm 122, 6), ac yn Llyfr Gweddi Gyffredin 1923, deddfodd Gwasg Prifysgol Rhydychen 'A man may not marry his grandmother's wife'. Ystyriwch yn ofalus: gyda merched yn cael priodi ei gilydd, hyd yn oed mewn ambell eglwys, fe ddaw'r dydd pan na fydd yn swnio mor hurt â hynny. Hyd y gwn, ni fu gwall o bwys yn unrhyw argraffiad Cymraeg o'r Beibl, a hyn er mai Saeson uniaith yn Llundain a gysododd y Beiblau Cymraeg cynharaf. Bu gennym erioed mae'n rhaid, lawer mwy o barch i'r Gair na'n cymdogion. Oni wyddoch chi amgen.

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD - 7FED O FAWRTH

ERIC JONES

Ym Merea Newydd y cynhaliwyd y cyfarod blynyddol hwn eleni, a dyna braf oedd gweld y festri'n rhwydd lawn o chwiorydd hawddgar eglwysi Pendref, Penuel a Berea.

Paratowyd y Gwasanaeth gan chwiorydd yr Aifft a'r thema oedd Ffrydiau yn yr Anialwch.Amheuthun oedd gweld bwdd wedi ei orchuddio gyda lliain lliw tywod i gyfleu'r anialwch, ac hefyd lliain glas i gyfleu'r afon Nil, ac un gwyrdd i gyfleu'r tir a gafodd ddigon o ddwr. Yn ystod y gwasnaeth rhoddwyd yn symbolaidd bowlen o ddwr, cerrig mân, blodau, ffôn symudol, a thorth Eifftaidd a'r y bwrdd er mwyn atgyfnerthu neges a gafwyd ym mrawddegau agoriadol y gwasnaeth sef

Meddai'r Arglwydd: Mi a dywalltaf ddyfroedd ar y tir sychedig
A ffrydiau ar y sychdir,
Tywalltaf fy ysbryd ar dy had,
A'm bendith ar dy hiliogaeth.

Yr uchafbwynt oedd ein hatgoffa bod y ffrydiau ysbrydol yn parhau i ddyfrhau ein hanialwch presennol, a bod y Crist yn parhau i ddisychedu eneidiau.

Atogffwyd ni fod yr Eglwys yn yr Aifft yn parhau'n gryf hyd heddiw a bod teuluoedd ar draws yr Aifft yn ymuno yn y Dydd Gweddi Byd Eang hwn. Roedd rhyw sioncrwydd yn y canu i gyfeiliant Mrs Menna Leyshon, cymrwyd rhan yn ddeheuig gan nifer fawr o chwiorydd, a braf oedd gweld rhai o'r mamau ifanc yn eu plith. Dangoswyd sleidiau a chyflwynwyd hanes yr Aifft yn wych gan Miss Eleri Jones. Diolch i Mrs Eirian Howells am yr holl waith o drefnu'r cyfan yn ei ffordd dawel arferol. Dyna braf oedd cael sgwrs dros baned at y diwedd, a hynny hefyd yn hybu agosatrwydd rhwng y dair eglwys Gymraeg ymneilltuol. *(Gweler llun ar y clawr cefn)*

TEITHIAU CERDDED

Un o'r digwyddiadau pleserus a drefnwyd i ddathlu'r Dengmlwyddiant llynedd oedd taith gerdded . Bu rhai aelodau yn holi a ellir trefnu taith / teithiau heb fod yn rhy hir – ar nos Wener / dydd Sadwrn – yn ystod yr haf hwn. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Delyth Oswy (354952) neu Geraint Percy (364085), os gwelwch yn dda.

BOGOF I'R BANC BWYD!

DELYTH OSWY

Tro nesa y gwelwch gynnig 2 am bris 1, dewch â'r ail becyn ar gyfer y banc bwyd! Rydym yn dal i gasglu bwyd, ac mae bocsiad mawr bob 2–3 wythnos yn mynd i'r Gadeirlan i'w ddosbarthu. Rydych chi (ac eraill sy'n defnyddio adeilad Berea, fel aelodau'r U3A) wedi bod yn hael ofnadwy, a derbyniwyd y llythyr yma:

Diolch am gefnogi gwaith Banc Bwyd y Gadeirlan.

Bydd eich cyfraniad yn mynd tuag at fwydo'r rhai sy'n cuddio eu diffyg bwyd ac sy'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd rhwng bwyta a thalu am angenrheidiau eraill. Mae hwn yn benderfyniad arbennig o anodd i'w wneud pan fo'n effeithio ar blant (yn enwedig pan mae rhieni'n gwneud popeth o fewn eu gallu i'w bwydo a'u gwisgo a darparu to teilwng uwch eu pennau.)

Mae yna hefyd, wrth gwrs, lawer o bobl eraill fydd yn elwa o'ch cyfraniad a'ch cefnogaeth. Pwy allen nhw fod?

Gall y rhai sy'n derbyn ein bwyd fod yn rhai sydd newydd ddioddef profedigaeth ac sy'n ei chael yn anodd i ddygymod, neu'n famau ifainc y mae magu plant yn mynd yn drech na nhw. Gallant fod yn bobl sy'n disgyn rhwng dwy stôl o ran budd-daliadau'r wladwriaeth a heb fod ag unrhyw adnoddau eraill wrth gefn. Gallant fod yn bobl sydd â phroblemau iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl) sydd heb fodd i'w bwydo eu hunain. Gallant fod yn rhai sy'n ddigartref am iddynt fethu â thalu'r morgais (neu wedi eu taflu allan o lety am fethu â thalu'r rhent).

Mae'r rhestr yn mynd yn hwy ac yn hwy ac mae'n cynnwys pob math o ddioddefaint dynol y gallwn ei amgyffred. Ymateb i'r cynnydd yn y dioddefaint hwn a wnaed wrth sefydlu Banc Bwyd y Gadeirlan. Ac yn yr amser byr ers hynny mae o wedi darparu miloedd o brydau ar gyfer y rhai anghenus ym Mangor a'r cyffiniau ac mae'r galw amdano yn cynyddu.

Bydd eich cyfraniadau yn mynd tuag at fwydo'r rhai fydd yn parhau i ddioddef wrth i drefniadau budd-dal ddod yn fwyfwy llym, wrth i adnoddau fynd yn fwyfwy prin ac wrth i'r opsiynau ddod yn fwyfwy cyfyngedig.

Diolch eto am eich cefnogaeth a'ch cyfraniad ac am feddwl amdanom.

Randolph Ellis
Cydlynydd Banc Bwyd y Gadeirlan

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 11-17 MAI 2014

DELYTH OSWY

RHOWCH DDYFODOL HEB OFN I BOBL

Inifer cynyddol o bobl ar draws y byd, mae erchyllterau rhyfel yn rhan o fywyd bob dydd. Ond fe ellir gwneud newid gwirioneddol i'w bywydau wrth i unigolion, cymunedau ac eglwysi gymryd rhan yn Wythnos Cymorth Cristnogol.

Llynedd, unodd 20,000 o eglwysi ar draws Prydain ac Iwerddon i helpu i godi £12m tuag at Wythnos Cymorth Cristnogol.

Bydd Elin Walker Jones ac Astra Thomas yn gyfrifol am drefnu'r casgliad o ddrws i ddrws ar ran Berea – os gallwch helpu, byddant yn falch iawn o glywed gennych (364079).

Bydd yna wasanaeth bach i gychwyn yr wythnos yn Berea Newydd 12.30 amser cinio dydd Llun, 12 Mai, a chinio bara caws i ddilyn.

Dydd Sadwrn, 17 Mai, am 7.30 p.m., bydd Quizaid i godi arian at Gymorth Cristnogol. Cwis a lluniaeth. Gall eglwysi anfon tîm o 6–8 o bobl, a bydd unigolion ychwanegol yn cael eu ffurfio yn dimau hefyd.

Diolch i'ch ymdrechion chi, gall llawer mwy o bobl ar draws y byd edrych ymlaen at ddyfodol rhydd o dlodi.

CYTÛN

DELYTH OSWY

EGLWYSI YNGHYD YM MANGOR

Cyfle i ymuno efo cyfeillion o eglwysi eraill Bangor dros y Pasg, ac i gael blas ar wir ystyr yr Ŵyl.

Gwener y Groglith – Dilyn y groes i lawr y Stryd Fawr. Cychwyn 11 a.m. o Eglwys Fethodistaidd St Ioan ar y Stryd Fawr, wedyn gorymdaith at y Gadeirlan a chloc Bangor, gyda drama a darlleniad ym mhob lleoliad.

Sul Pasg - 'Ac yn fore iawn ….' Myfyrdod awyr agored yn y Camp Rhufeinig, Bangor Uchaf, 7 a.m., wedyn brecwast (ac wyau Pasg!) i bawb fydd wedi llwyddo i godi, yng Nghapel Penrallt.

(gw. gwefan Cytûn Bangor am fwy o fanylion)

O BENRHOS I BATAGONIA

SARA WILIAM

Ym mis Hydref eleni, byddaf yn cyd-deithio gyda 24 aelod arall o Urdd Gobaith Cymru i'r Wladfa ym Mhatagonia; mae'r daith, sy'n rhan o brosiect gwirfoddoli rhyngwladol, wedi ei threfnu ar y cyd rhwng yr Urdd, Menter Iaith Cymru a Menter Patagonia.

Yno, byddaf yn cynnal pob math o waith gwirfoddol, gan gynnwys gwneud sesiynau gyda phlant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yno, ymweld â thrigolion y Wladfa o dras Cymraeg, gweithio mewn ysgolion i blant difreintiedig a phlant gydag anghenion arbennig, cynorthwyo gyda phrosiectau cymunedol a chynrychioli Cymru yn Eisteddfod Y Wladfa.

Rwy'n ymgymryd â phob rhan o'r prosiect - o drefnu'r daith, gwirfoddoli ar amryw brosiectau, i godi arian a chyfathrebu gyda'n partneriaid ym Mhatagonia. **Felly, fel rhan o'm hymgyrch i godi arian ar gyfer y daith gyffrous hon, bwriadaf gynnal bore coffi yng nghapel Berea Newydd fore Sadwrn 3 Mai o 10-12 o'r gloch.**

Byddaf yn falch o gael eich croesawu yno a chael clywed, gobeithio, am brofiadau rhai ohonoch sydd wedi bod yn y Wladfa.

Hoffwn ddiolch ymlaen llaw i'r Parch Eric Jones a blaenoriaid y capel am eu cefnogaeth barod. Dewch yn llu!

SWPER A CHYNGERDD GWYL DDEWI'R GYMDEITHAS

Nos Iau'r 13eg o Fawrth dathlwyd Gwyl Ddewi gyda chyngerdd gwych gan delynorion ifanc hyfryd o dan yr enw ALAWTASTIG. Eu harweinydd bywiog oedd Lisa Elfyn Butler. Os ydych am wasnaeth y cerddorion yma cysyllter a lisaelfryn@live.co.uk neu 07850467357.

Yn dilyn cafwyd swper ardderchog wedi ei baratoi gan Pryd i Bawb. Llywyddwyd y noson gan Mr Arfon Evans a diolchodd yn arbennig i Mrs Liz Roberts,Ysgrifennydd ddiwyd y Gymdeithas am ei holl waith trwy gydol y tymor, ac hefyd i Mr Wynn Griffith y Trysorydd. Oes gynnoch chi synidadau ar gyfer y tymor nesaf ? Byddwch yn barod i'w cynnig !

Y TRAETHODYDD

GERAINT PERCY JONES

Mynnwch ddysg yn eich iaith," oedd geiriau William Salesbury. Dri chan mlynedd yn ddiweddarach , ym marn Thomas Parry, yr oedd gelyniaeth bendant tuag at ddysg yn nodweddu crefydd yng Nghymru. Wrth gychwyn y cylchgrawn Y Traethodydd yn 1845, pennaf cymwynas y gŵr eang ei ddysg, Lewis Edwards - ar y cyd gyda Roger Edwards - oedd gweithio er gwella'r diffyg hwn. Gant a chwe deg naw o flynyddoedd yn ddiweddarach, deil y cylchgrawn chwarterol rhyfeddol hwn i ffynnu. Y Golygydd presennol yw Dr. Brynley F. Roberts ac ymhlith y Panel Ymgynghorol y mae'r Parchedig Glyn Tudwal Jones.

O edrych ar wefan dra diddorol Eglwys Bresbyteraidd Cymru cawn wybod mai prif amcan Y Traethodydd yw cynnig ymdriniaethau ar rychwant o bynciau sy'n ymwneud â diwylliant a deall y gair hwnnw mewn ystyr eang i gynnwys gwead syniadol a deallusol cymdeithas. Trafod pynciau cyfoes sy'n ymwneud â llenyddiaeth, crefydd a'r celfyddydau mewn ffordd ddeallus a wneir.
Annog darllenwyr Ichthus i brynu neu i fenthyca o Lyfrgell y Capel, ac yn sicr i ddarllen, y cylchgrawn yw bwriad y sylwadau hyn. Hoffwn yn fawr dynnu sylw llawnach at deyrnged J. Heywood Thomas i'r ysgolhaig a'r diwinydd H.H.Farmer. Rhaid fy nghyfyngu fy hun i'r frawddeg olaf,
"Ymhlith y cewri y cefais y fraint o'u hadnabod ar hyd a lled y byd erys y dyn addfwyn hwn yn fy nghof nid yn unig fel meddyliwr mawr ond fel Cristion ffyddlon a phatrwm o ddysgawdwr."
Rhyfeddais hefyd at athrylith J.E.Daniel wrth i Iestyn Daniel dynnu ein sylw at gyfieithiad ei dad yn arddull yr hen benillion o gerdd serch gan y bardd Groegaidd Sapho.

A rhyfedd mewn ystyr wahanol oedd cael gwybod gan E.G.Millward am gysylltiadau Robert Owen y Drenewydd, y diwydiannwr goleuedig ac arloeswr sosialaeth a'r mudiad cydweithredol, ac Alfred Russel Wallace, y naturiaethwr a luniodd ddamcaniaeth ynghylch esblygiad yr un pryd â Charles Darwin, ag Ysbrydegaeth.

Dau gyfraniad meithaf y rhifyn yw stori fer heriol Glyn Adda, 'Trobwynt', ac ymdriniaeth T.G.Davies sy'n dwyn y teitl, 'Eisteddfod y Teimladau : Sylwadau ar Ddatblygiad Seiciatreg'.

Y mae Y Traethodydd erioed wedi rhoi lle i adolygiadau sylweddol a safonol . Gwneir hynny yn sicr y tro hwn. Dau lyfr y mae un o'n dinaswyr ni ym Mangor, Gareth Ffowc Roberts , yn awdur un ohonynt ac yn gyd-olygydd un arall, sy'n cael sylw Alun O. Morris. Y mae'r gyfrol Robert Recorde : The Life and Times of a Tudor

Mathematician yn gyfrol o bwys i hanes mathemateg, hanes y cyfnod Tuduraidd ac i hanes Cymru. Ffrwyth cynhadledd a drefnwyd yng Ngregynog yn 2008 i gofio marwolaeth Robert Recorde 450 mlynedd ynghynt ydyw. 'Mae Pawb yn Cyfrif – Stori Ryfeddol y Cymry a'u Rhifau' yw'r gyfrol arall. Yn haeddiannol, canmolir arddull fyrlymus a hwyliog yr awdur. Mewn dyddiau y clywn gymaint o draethu diddeall yn y cyfryngau ar bwnc pwysig i'n plant, byddai darllen y gyfrol hynod ddarllenadwy hon yn gymorth i ddatblygu agwedd lawer iachach a phositif at y pwnc.

Fel y gellid disgwyl, ceir ymdriniaeth fanwl a threiddgar gan R. Maldwyn Thomas ar lyfryn hynod o liwgar a dadlennol R. Elwyn Hughes 'Merched Digon Trafferthus' sy'n darlunio hanes Capeli Caerdydd yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Os na chewch afael ar yr astudiaeth, gallaf eich sicrhau y cewch flas arbennig ar adolygiad Maldwyn.

Pe na ddarllenech ddim ond adolygiad Barry Morgan ar 'R.S.Thomas : Uncollected Poems' a olygwyd gan un arall o wŷr Bangor, Jason Walford Davies, ynghyd â Tony Brown, caech werth eich pres. Syfrdanol i mi yw'r diffiniad hwn o weddi

A trickle
of language gathering to a reservoir
to be drawn on by the thirsting
mind in its need for meaning.

Gwythïen gyfarwydd ym marddoniaeth R.S.Thomas yw pa mor anodd yw ffurfio perthynas â Duw am fod Duw'n fod trosgynnol na ellir, yn y pen draw, ei adnabod. Meddai R.S.

The computer is unable
to find God: no code
number, no address.

Mewn adolygiad craff ar gyfrol Alan Llwyd 'Bob : Cofiant R.Williams Parry' cawn wybod mai "gyda meddwl ychydig bach yn ddrwgdybus" yr aeth Derec Llwyd Morgan at y dasg. Fe'i cafodd yn "ailadroddus mewn mannau" ac er bod yn y gyfrol "raeadr o wybodaeth fanwl" awgrymir bod "grym y rhaeadr yn drech na gallu'r awdur i'w sianelu'n rhesymol." Yr hyn a wna'r awdur yn aml yw "penderfynu rhag blaen ar ei drywydd heb bwyso a mesur y dystiolaeth." Ym marn yr adolygydd "y mae hyfdra na hoffaf yn y teitlau 'Kate' a 'Bob'".

Y mae'n werth darllen yr adolygiad i gael barn wahanol Derec Llwyd Morgan am yr helynt a fu rhwng R Williams Parry ac awdurdodau Coleg Bangor yn y tri degau. "Y gwir amdani yw bod RWP wedi gwneud cyn lleied ag y medrai yn y coleg ym Mangor er pan gyflogwyd ef" yw sylw'r adolygiad.

Pedair punt yw pris rhifyn o 'Y Traethodydd'. Mae'n werth pob ceiniog.

Y SASIWN GYNTAF

Y PARCHEDIG DDR GORONWY PRYS OWEN

HARRIS A DARLUN "Y SASIWN GYNTAF"

Mae llawer ohonom yn gyfarwydd â'r portread o'r "Sasiwn Gyntaf", ymgais yr artist, Hugh Williams yn 1912 i ddarlunio'r Sasiwn a gynhaliwyd ym Mhlas y Watford, ger Caerffili, yn Ionawr 1743. Nid hon oedd y Sasiwn gyntaf o arweinwyr Methodistiaid Cymru: gwyddys am dair Sasiwn yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin flwyddyn ynghynt. Ond hon oedd y Sasiwn unedig gyntaf o arweinwyr y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru a Lloegr. George Whitfield sy'n llywyddu, a'r Beibl yn agored o'i flaen, ac ar y dde iddo y mae Daniel Rowland a Howel Harris, gyda Williams Pantycelyn ar y chwith. Yn eistedd ar y chwith eithaf y mae John Cennick a Joseph Humphreys, dau o gydweithwyr Whitfield yn Lloegr, gyda John Powell, Llanmartin, yn sefyll.

Eleni mae'n briodol sylwi ar gyfraniad anfesuradwy Howel Harris. Fe'i ganed yn Nhrefeca yn Ionawr 1714, ond yn 1735 y daeth tro annisgwyl i'w fywyd.

Yn eglwys Talgarth ar Sul y Pasg y flwyddyn honno, mentrodd at Fwrdd yr Arglwydd, a gwybu i air yr Arglwydd gyffwrdd ei enaid. Ar y Sulgwyn aeth drachefn i'r Sacrament, "gan gredu'n syml yn yr Arglwydd Iesu Grist", a chael "prawf eglur trwy'r Ysbryd Glân fod Crist wedi marw drosof fi, a bod fy mhechodau i gyd wedi eu rhoddi arno Ef". Teimlodd ryddid maddeuant yn ei enaid, gan gysegru'i fywyd i ledaenu'r Efengyl.

Mynegir craidd ei genhadaeth mewn llythyr ar Howel Davies, Apostol Penfro, ym Mai 1742, "Credaf y gelwir arnom i weinyddu'r Gair, a bod yn dystion i'r Gwirionedd, fel y gwelsom ac a glywsom ef yng Nghrist, i bob dyn, ac yn bennaf i'r eneidiau dall a thlawd yn ein heglwys ni." Marchogodd i bob cwr o Gymru i bregethu'i neges, gan ymweld â Sir Gaernarfon o leiaf chwe gwaith rhwng 1741 a 1751.

Llesteiriwyd ymdrechion Harris gan ddwy ffactor: ei orddibyniaeth ar 'broffwydoliaethau' Sidney Griffith, Cefn Amwlch, a dylanwad y Morafiaid a'i llusgodd i gorsydd athrawiaethol am ddioddefaint y Tad, yn hytrach na'r Mab, ar y groes. Dyma'r ddwy ffactor a arweiniodd at yr Ymraniad yn 1752: plaid Harris a phobl 'y ffeiriad', sef Daniel Rowland. Ymneilltuodd Harris i Drefeca, gan ddatblygu'r safle ar batrwm arbrofion y Morafiaid yn Fulneck yn Sir Efrog. Dyma pryd y sefydlwyd Teulu Trefeca, ac ymunodd llawer o Sir Gaernarfon ac o Sir Ddinbych â'r sefydliad hwnnw. Maentumia rhai mai yn y gymuned hon y dechreuodd y Chwyldro Diwydiannol yng Nghymru.



Yn 1762 cymodwyd Harris a Rowland a daeth yr ymraniad i ben. Dyma hefyd flwyddyn cyhoeddi Caniadau... y rhai sydd ar y Môr o Wydr, Williams Pantycelyn, a blwyddyn "Diwygiad Mawr" Llangeitho. Ond erbyn hyn yr oedd straen gorweithio yn pylu nerth Harris, a dirywio a wnaeth ei iechyd dros y deng mlynedd nesaf. Bu farw yng Ngorffennaf 1773, a'i gladdu nid nepell oddi wrth yr allor yn eglwys Talgarth, yr union le y profodd rymusterau gwaed Crist yng ngwanwyn ei fywyd.

CYFOETH BREUDDWYDION BARDD

ADOLYGIAD MENNA BAINES



Mae John Gruffydd Jones, Abergele, yn adnabyddus inni fel bardd a llenor, fel cyn-olygydd Y Goleuad ac wrth gwrs fel tad Delyth a thaid Marged, Sara a Lois. Enw ei gyfrol ddiweddaraf o gerddi yw *Ai Breuddwydion Bardd Ydynt?* (Gwasg y Bwthyn, £6.95), ac mae yma gymysgedd o delynegion, cerddi yn y wers rydd, sonedau, emynau, carolau a phenillion telyn.

Mae'r gyfrol wedi cael ei chanmol gan adolygwyr am y ffordd grefftus a theimladwy y mae'n mynegi tro ar fyd, yn enwedig y newid a welodd y bardd ym mhenrhyn Llŷn lle cafodd ei eni a'i fagu. Yn ôl Dafydd John Pritchard, wrth adolygu yn 'Barn', mae yma elfen anochel o resynu yn wyneb y newid hwnnw ond mai 'tristwch wedi'i ffrwyno ydi o', gan mai 'bardd sy'n siarad, nid y protestiwr na'r pregethwr'. Mae Llion Jones yn gwneud pwynt digon tebyg yn ei ragair difyr wrth drafod gwaith 'Yncl John', fel y'i hadnabu erioed ac yntau wedi'i fagu yn y stryd nesa' i'r bardd a'i deulu yn Abergele. Yno noda Llion mai hiraeth efallai yw prif gywair y casgliad ond nad 'rhyw hiraeth meddal a phruddglwyfus mohono ond hiraeth wedi'i angori mewn dynoliaeth'.

Dyma un o'r cerddi i roi blas i chi – nid cerdd am Lŷn y tro hwn ond un o nifer o gerddi yn y gyfrol sy'n sôn am grefydd a honno'n gerdd amserol iawn a ninnau ar drothwy'r Pasg.

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

CRI

Ein Tad
Yr hwn wyt,
Na, nid yn y nefoedd,
Ond yma.
Yma
Lle mae ein gofid ni
Yn ymestyn
O fryntni iaith ein stryd
I'r mannau
Nad ydynt ond enwau
Ar sgrin ein cynefindra.
Darfur, Chad, Irac...

Cadw ni
Rhag gweddïo ar allorau balch
Na doethinebu
Yn ein temlau hardd
Am Faban gwyn,
Heb weld y clytiau brwnt
Yn lapio am eiddilwch brau
Mewn crud o gardbord,
A'r 'doethion' gyda'u geiriau ffals
Yn rhoddi eu hanrhegion sglein
O aur,
A thusw o ynnau
A myrddiwn o fomiau drud
Yn llety yr Anifail.

Gad i ni eilwaith
Weld yr Atgyfodiad,
Nid mewn gardd
Ond yn niffeithwch noeth
Y Dwyrain,
A chlywed cân angylion
Ar feysydd coch y gad.

A deled dy Deyrnas Di
Yma
I eilio gair
Y rhai sy'n mynnu
Bod y Bedd yn wag.

John Gruffydd Jones

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

CWSG OSIAN

"Mi gerddodd eich Osian chi allan o'r oedfa yng nghanol fy mhregeth y Sul diwethaf" meddai'r gweinidog wrth Mrs Jones yn y dref un bore Sadwrn. "Peidiwch â phoeni dim Mr Hughes bach, tydio'm byd personol," atebodd Mrs Jones, ".... mae'n cerdded yn ei gwsg yn aml."

Y GORNEL WEDDI

ALWYN ROBERTS

WRTH EU HENWAU

Yn Efengyl Ioan mae cyfeiriadau at Iesu ar ôl ei atgyfodiad yn cyfarch dau berson wrth eu henwau. Y naill oedd Mair Magdalen, y llall Seimon Pedr. Yn ôl traddodiad, putain oedd Mair; yn eiddo i bawb a feddai'r pris ond heb berthyn i neb. Ond rhywfodd, rhywsut daeth yn rhan o gylch disgyblion a chyfeillion Iesu, daeth i berthyn. Ond rhoes y groes derfyn ar y cyfan. Fe ddaeth yn fore at y bedd ond nid cysur iddi oedd y bedd gwag. Yn hytrach, ychwanegu at ei cholled a dwysâu ei hunigrwydd oedd y gwacter. Ond mae'r gŵr y tybiodd hi oedd y garddwr yn ei galw wrth ei henw ac mae popeth yn newid. Mae defnyddio'r enw, Mair, yn dileu'r unigrwydd - mae'n perthyn unwaith eto.

Mae Iesu yn galw enw Seimon deirgwaith - yn ein atgoffa i Seimon deirgwaith ei wadu. Ond nid cyhuddo nac edliw y mae Iesu ond yn hytrach maddau ac ail-ymddiried "a wyt ti yn fy ngharu i? - portha fy nefaid." Mae'n galw mewn maddeuant i berthynas newydd ac i gyfrifoldeb uwch. Ac yma y down at ystyr yr atgyfodiad. Dim ond dwysâu gofid Mair a wnai'r bedd gwag ynddo'i hun. Fe allai ail-gyfarfod â Christ fod yn achlysur i atgoffa Seimon am ei fethiant ac am y gwadu. Ond fe'i galwodd eu dau wrth eu enwau i berthynas ac i gyfrifoldeb newydd. Daeth ei atgyfodiad ef yn fywyd newydd iddynt hwythau. Boed felly i ninnau heddiw.

GWEDDI

O Dduw Dad, boed i groes Crist ein atgoffa o ddyfnder Dy gariad tuag atom ac i'w atgyfodiad ein argyhoeddi O'th nerth. Cynorthwya ni i fyw yn nerth y cariad hwnnw holl dyddiau ein hoes, yn Iesu Grist, Amen.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA NEWYDD AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org
www.henaduriaetharfon.org

CIC BANG A BACH

ELEN WYN

Wel dyma ni, yr ail rifyn o *Ichthus* yn 2014. Aeth amser heibio a'i wynt yn ei ddwrn, mae'r diwrnodau'n ymestyn a thywydd garw y gaeaf yn cilio.

Beth wnaethom ni yn ystod y nosweithiau llwm yn dilyn dathlu'r wyrth orau erioed? Wel, 'rydym ni griw Cic Bach a Bang wedi 'joio'. Buom yn mwynhau cwmni difyr ein gilydd, yn dilyn hanesion Iesu fel athro, iachawdwr a gwaredwr. Buom hefyd yn sylweddoli ei gariad tuag atom oll ac yn ystyried pam y bu iddo gael ei erlid gyda'r fath greulondeb.

Cawsom hwyl yn nghwmni nifer o gyfeillion a ddaeth draw atom ni. Daeth nifer o aelodau i ymuno yn hwyl yr hoci ac addurno bisgedi Pasg ymysg nifer o weithgareddau eraill. Daeth Elin Wyn, un o'n haelodau ifanc i rannu ei sgiliau gymnasteg â ni. Bu i ni hefyd fwynhau cwmni Andrew Setatree; diolch iddo'n fil am noson mor hwyliog ac am ein gwahodd i ystyried ymddygiad Herod wrth iddo ddedfrydu Yr Arglwydd Iesu i farwolaeth. Mae trefniadau ar y gweill i fwynhau cwmni ffrindiau eraill fydd hefyd yn dod i rannu eu doniau â ni yn y tymor newydd.

Yn dilyn ein brecwast traddodiadol hwyliog yn y festri, cawsom gyfle i lawenhau yn Ngwasanaeth y Groglith a'r Pasg. Cyfrannodd nifer helaeth o blant a'u rhieni at yr oedfa er mwyn cofio bod Iesu wedi atgyfodi o'r bedd er ein mwyn ni.

CHWILAIR Y PASG

o	l	g	o	q	o	a	y	l	r	j	d	b	l	f
o	o	n	h	s	e	u	i	c	e	c	e	e	t	j
t	h	i	u	x	c	n	a	z	o	j	n	d	w	w
l	t	d	h	r	j	r	p	r	y	a	f	d	o	f
v	q	o	c	q	i	e	o	e	m	y	a	g	m	o
z	t	f	y	a	i	n	i	e	q	s	l	w	b	z
o	w	y	d	l	d	z	s	u	h	p	o	a	c	k
m	c	g	a	d	m	h	c	r	i	o	r	g	e	m
c	c	t	r	g	t	m	a	r	w	a	e	o	i	p
n	m	a	b	e	a	r	r	y	o	t	p	l	l	c
d	i	s	g	y	b	l	i	o	n	e	w	g	i	t
n	z	w	g	c	p	g	o	z	d	y	s	o	o	o
m	x	c	g	w	z	z	t	r	r	f	l	t	g	s
v	z	k	z	r	s	v	j	g	d	e	r	h	h	h
d	r	y	r	d	o	x	l	m	a	d	d	a	u	m

atgyfodi
croes
marw
bara
disgyblion
pedr
bedd gwag
gethsemane
peilat
bradychu
golgotha
Swper olaf
cariad
gwin
milwyr
ceiliog
jwdas
maddau
coron ddrain
iscariot
croeshoelio

SALM AC EMYN

		SALM		EMYN	
Mai	**4**	100	Gwion Sion	788	Ifan Sion
	11	1	Iolo Evans Jones	148	Owain Edwards
	18	23	Alys McCann	139	Rhys Owen
			Hanner Tymor		
Mehefin	**8**	150	Guto Llŷr Davies	780	Catrin Lois Edwards
	15		Sul Moliant y Plant ym Merea		
	22	67	Gwen Alaw Roberts	399	Rhys Roberts
	29	29	Ela Vaughan Roberts	681	Daniel Rhys Jones
Gorffennaf	**6**	136:1-9	Carwyn Siôn	406	Eleri T Roberts
	13	121	Siwan Huw Williams	373	Efa Huw Williams

Diolch YN FAWR am eich cyfraniad.

Os ydyw plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,
hysbyser Kathy - kathy.sion@btinternet.com neu 364957. Diolch

OS AM GYFRANNU I'R RHIFYN NESAF O ICHTHUS, YNA GALLWCH:

➽ **EI YRRU I 4 GOLEUFRYN, PENRHOSGARNEDD LL57 2LY**

➽ *neu* **GYRRWCH E-BOST AT** *gdeiniol@hotmail.com*

I GYRRAEDD ERBYN Y 1af O ORFFENNAF OS GWELWCH YN DDA

Y DIGWYDDIADUR

EBRILL
Ebrill 30
DOLGELLAU - Sasiwn y Chwiorydd

MAI
Prynhawn Gwener Mai'r 2ail am 2 o'r gloch
NODDFA CAERNARFON - cwrs ar Colombia gan Manon Davies, sef y wlad y bydd Wythnos Cymorth yn canolbwyntio arni eleni.

Bore Sadwrn Mai y 3ydd o 10 tan 12
BEREA NEWYDD - Bore Coffi Patagonia yng ngofal Sara Alis

Mai'r 11eg hyd 17eg
WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Mai'r 12fed yn y Festri o 12.30 ymlaen
Cinio syml Cymorth Cristngol gan ddechrau gyda gwasnaeth byr.

Mai'r 13eg am 10 bore a 1.30 y prynhawn
SEILO LLANDUDNO - Cynhadledd Flynyddol Undeb Athrofa'r Bala
(BORE)
A ydyw'r sefyllfa gyfoes yn galw am agweddau newydd tuag at foesoldeb ?
(PRYNHAWN)
Rhyw a Rhywioldeb. A ydyw'r agweddau traddodiadol yn dal yn berthnasol?
Y darlithydd : Y Parch Dr Noel Davies, Abertawe.

Nos Fawrth Mai'r 20fed am 6.30
COLEG MENAI - Swper y Chwiorydd

MEHEFIN
Dydd Sul Mehefin y 15fed
Mawl y Plant yn y bore. Mawl yr Ifanc yn yr hwyr.

SYLWER
Cyfeiriad ebost newydd y capel yw capelberea@gmail.com

BETH YW EICH BARN? A ddylid symud oedfa'r hwyr o'r capel i'r festri ?
E-bostiwch eich ymatebion i'r capel neu eu rhoi yn y blwch sydd yn y cyntedd.

Uchod: Cic Bach. Isod: Rhai o'r chwiorydd (wele erthygl tudalen 6)